

# ASTUDIAETH ACHOS

## CYNLLUN RHEOLI CARBON

### DIFFODD MAN OFFER TRYDANOL

Mae Cyngor Gwynedd, gyda chymorth Rhaglen Adfywio Ardal Môn a Menai Llywodraeth Cymru, wedi buddsoddi mewn system rheoli offer trydanol arloesol newydd sydd yn arwain at arbedion ynni, carbon, ac ariannol sylweddol.

#### Cefndir

Mae llawer o offer trydanol megis cyfrifiaduron, argraffwyr a llungopiwyr yn cael eu defnyddio ym mhrif adeiladau Cyngor Gwynedd. Mae wedi ei gydnabod fod nifer o'r offer hyn, yn enwedig offer sydd yn mynd i fodd segur ar ôl amser, yn cael eu gadael ymlaen heb fo angen.

Penderfynodd y Tim Cadwraeth Ynni felly i fuddsoddi mewn system 'EnergyLogix', i reoli'r man offer hyn. Bydd defnydd ynni yr offer trydanol hefyd yn cael ei fonitro yn ganolog. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno i'r adeiladau sydd yn defnyddio y mwyaf o drydan gan gynnwys y swyddfeydd, canolfannau hamdden a'r ysgolion mwyaf.

#### Gweithredu

Cadarnhawyd yng ngaeaf 2012 y byddai Rhaglen Adfywio Ardal Môn a Menai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynllun hwn yn ariannol oherwydd ei natur arloesol, drwy gyfrannu £100,000 tuag at y cynllun £260,000.

Penderfynwyd mai'r adeiladau sydd yn defnyddio y mwyaf o drydan a fyddai'n derbyn y system. Un o'r adeiladau cyntaf i'w dderbyn oedd Canolfan Hamdden Arfon yng Nghaernarfon.

Mae'r system wrthi'n cael ei chyflwyno i brif ddefnyddwyr trydan y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys Swyddfa'r Pencadlys yng Nghaernarfon a swyddfeydd rhanbarthol eraill; pedair Ysgol Uwchradd ac un Ysgol Gynradd; a phedwar canolfan hamdden.

#### Allbynnau

Mae canlyniadau monitro Canolfan Hamdden Arfon yn addawol, gydag arbedion o 51% yn nefnydd trydan yr offer sydd yn cael ei reoli gan system EnergyLogix. Mae Ysgol Syr Hugh Owen hefyd yn gweld arbedion o 25% o ddefnydd trydan yn gyson yn ystod y tymor ysgol ers gweithredu'r system. Er, mae'r arbedion mwyaf i'w gweld yn ystod gwyliau ysgol. Yn ystod gwyliau mae'r ysgol yn llwyddo i ddefnyddio 85% yn llai o drydan nac yn ystod gwyliau cyn gosod y system. Mae hyn yn arbediad aruthrol.

Mae'r dechnoleg yma yn enghraifft o ymarfer da, ac yn addas i eraill yn y sector gyhoeddus, a'r sector breifat er mwyn gwneud arbedion carbon, ac ariannol, sylweddol. Mae Cyngor Gwynedd yn arwain y ffordd, gan obeithio y bydd eraill yn dilyn eu esiampl.

Bydd gosod y system yn yr adeiladau eraill yn cael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2013.

#### PROSIECT

'Energylogix'

#### COSTAU CYFALAF

£260,000

#### GRANT LLYWODRAETH CYMRU

£100,000

#### ARBEDION ARIANNOL

£48,000 y flwyddyn

#### ARBEDION CARBON

327 tunnell y flwyddyn

#### CYFNOD AD-DALU

5.4 mlynedd



**Cyngor Carbon Isel → Gwynedd Carbon Isel**

[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

